**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL DIODDEFWYR A'R LLYSOEDD**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig*.*

2. Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mai 2025*.* Mae'r Bil ar gael yn: [Y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd]

3. Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch y Bil, sydd wedi cynnwys rhannu amlinelliad o'r mesurau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil.

4. Mae'r Bil yn cynnwys 16 rhan ac yn 74 tudalen o hyd, ac mae'n mynd i'r afael â phynciau gan gynnwys erlyn, dedfrydu a rheoli troseddwyr.

## Amcanion Polisi

*5.* Yr amcanion polisi a nodwyd gan Lywodraeth y DU yw:

- Darparu pwerau newydd i farnwyr gosbi troseddwyr sy'n gwrthod bod yn bresennol i gael eu dedfrydu, gan gynnwys ystod o gosbau carchar yn ogystal â blynyddoedd ychwanegol ar eu dedfryd.

- Cyfyngu cyfrifoldeb rhieni yn awtomatig ar gyfer troseddwyr sy'n cael eu dedfrydu am drosedd cam-drin rhywiol difrifol yn erbyn eu plentyn eu hunain.

- Cryfhau pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr i sicrhau bod mwy o graffu ar y systemau sy'n cefnogi dioddefwyr.

- Rhoi sicrwydd i ddioddefwyr am y llwybrau sydd ar gael i dderbyn gwybodaeth ynghylch rhyddhau eu troseddwr.

## Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

7. Amlinellir prif ddarpariaethau'r Bil isod:

[1] Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf ac fel "y Senedd" ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.

a) Creu pŵer statudol penodol i farnwyr orchymyn troseddwyr i fod yn bresennol yn eu gwrandawiadau dedfrydu, fel bod yn rhaid i'r troseddwyr hyn wynebu canlyniadau eu troseddau. Gallai troseddwyr sy'n gwrthod bod yn bresennol heb esgus rhesymol wynebu dwy flynedd arall yn y carchar a / neu gosbau carchar. Bydd y mesur hwn hefyd yn gymwys yng nghyd-destun y lluoedd arfog i droseddwyr sy'n gwasanaethu.
b) Creu cyfyngiad awtomatig ar arfer cyfrifoldeb rhiant yn achos troseddwyr sy'n cael eu dedfrydu i garchar neu leoliad cadw am gyfnod o bedair blynedd neu fwy am drosedd 'ddifrifol' o gam-drin plant yn rhywiol yn erbyn plentyn y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant amdano. Bydd y mesur yn cryfhau'r amddiffyniadau sydd ar gael i ddioddefwyr sy'n blant. Bydd y mesur hefyd yn amddiffyn dioddefwyr anuniongyrchol sy'n blant trwy gyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant dros pob plentyn y mae gan y troseddwr gyfrifoldeb rhiant amdanynt. Ni fydd yn rhaid i aelodau'r teulu gyflwyno cais i'r Llys Teulu, gan ganiatáu i'r achosion hyn symud ymlaen gyda'r baich gweithdrefnol lleiaf posibl a lleihau gofid diangen i deuluoedd a phlant mewn amgylchiadau sydd eisoes yn anodd.
c) Rhoi sicrwydd i ddioddefwyr am y llwybrau sydd ar gael i dderbyn gwybodaeth am droseddwr yn ystod eu dedfryd. Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ategu'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr yn cael ei ddiweddaru i ddod â dioddefwyr sydd ar hyn o bryd yn defnyddio cynlluniau gweithredol eraill o dan un Cynllun Cyswllt Dioddefwyr cyson. Bydd ganddynt hefyd hawl statudol i wneud sylwadau am unrhyw amodau trwydded neu ofynion goruchwylio sy'n gysylltiedig â dioddefwyr y gallai'r troseddwr fod yn ddarostyngedig iddynt pe bai'n cael ei ryddhau. Bydd llwybr clir hefyd i ddioddefwyr ofyn am gymorth, trwy Linell Gymorth i Ddioddefwyr newydd, bwrpasol. Os dymunant, bydd dioddefwyr yn gallu darparu sylwadau y gellid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau rheoli troseddwyr ar amodau'r drwydded.
d) Cryfhau pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr i sicrhau bod mwy o graffu ar y systemau sy'n cefnogi dioddefwyr. Bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd Dioddefwr gynhyrchu adroddiad annibynnol ar gydymffurfio â Chod y Dioddefwyr. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol, lle maent yn ymwneud â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, i gydweithredu â Chomisiynydd y Dioddefwyr, ar yr amod ei bod yn briodol ac yn rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny. Bydd y Comisiynydd Dioddefwyr yn cael y pŵer i weithredu mewn perthynas ag achosion unigol, lle maent yn codi materion perthnasol i bolisi cyhoeddus.
e) Diwygio deddfwriaeth i roi pŵer i'r Arglwydd Ganghellor osod cyfraddau mewn Rheoliadau lle gall erlynwyr adennill eu treuliau o Gronfeydd Canolog mewn erlyniadau preifat. Bydd ymgynghoriad pellach yn dilyn er mwyn helpu i gyflwyno Rheoliadau sy'n nodi'r cyfraddau i sicrhau bod treuliau erlynwyr preifat y gellir eu hadennill o arian cyhoeddus yn gymesur.

f) Sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i ystyried pob cais am atgyfeiriad i'r Llys Apêl trwy ddiwygio'r terfyn amser i'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio dedfryd i'r Llys Apêl ar y sail ei bod yn ymddangos yn ordrugarog. Bydd hyn yn gwarantu bod gan Swyddogion y Gyfraith o leiaf 14 diwrnod i ystyried a ddylid atgyfeirio dedfryd ar ôl i'r cais i adolygu'r ddedfryd ddod i law. Mae'r gwelliant hwn yn dilyn camau sydd eisoes wedi'u cymryd gan Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Cynllun Dedfrydau Gordrugarog, gan gynnwys cynyddu adnoddau a chyflwyno ffurflen ar-lein ar gyfer ceisiadau i adolygu dedfryd.
g) Diwygio deddfwriaeth mewn perthynas â chwe throsedd neillffordd i ddod â'u cosb uchaf yn y llysoedd ynadon yn unol â throseddau neillffordd eraill.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

8. Mae swyddogion wedi cael trafodaethau cynnar, cyson a chadarnhaol gyda swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r Bil ddatblygu.

9. Ysgrifennodd y Gweinidog Dioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ar 7 Mai 2025 gan dynnu sylw at y ffaith y byddai'r holl fesurau yn y Bil ar adeg eu cyflwyno yn berthnasol ac yn gymwys i Gymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

*Cymal 7 – Dyletswydd i gydweithredu gyda'r Comisiynydd: ymddygiad gwrthgymdeithasol*

10. Mae cymal 7 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i gydweithredu gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr, lle bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i wneud hynny. Mae'r mesur yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau datganoledig yng Nghymru sy'n golygu bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau hyn.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

11. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau canlynol y Bil:

- Cymal 7 – Dyletswydd i gydweithredu gyda'r Comisiynydd: ymddygiad gwrthgymdeithasol

12. Rwyf yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymal a restrir ym mharagraff 10.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd**

13. Yn fy marn i, mae'n briodol i'r Bil hwn wneud darpariaeth ar gyfer Cymru, gan fod y Bil hwn yn ymwneud yn bennaf ag erlyn, dedfrydu a rheoli troseddwyr. Mae'r materion hyn wedi'u cadw yn ôl i raddau helaeth.

**Goblygiadau ariannol**

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil hwn ar hyn o bryd.

**Casgliad**

15. Fel yr amlinellir uchod, rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. O ran y ddarpariaeth yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**20 Mai 2025**